**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: LG/00019/22

Y Cynghorydd Simon Glyn
Cadeirydd y Cyngor

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

3rd Chwefror 2022

Annwyl Simon,

Diolch am eich e-bost dyddiedig 12 Ionawr ynglŷn a chynigion Cyngor Gwynedd ynghylch creu coetiroedd yng Nghymru.

Fel rhan o'n hymateb i'r argyfwng hinsawdd, mae angen i ni blannu 43,000 hectar o goetiroedd cyn 2030 a 180,000 hectar cyn 2050. Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud hyn mewn ffordd sydd o fudd i gymunedau lleol a'r economi wledig.

Rydym am i ffermwyr fod yn ganolog i blannu mwy o goed yng Nghymru. Rydym yn awyddus i osgoi diddordebau allanol yn prynu tir ac rydym am weithio gyda thirfeddianwyr Cymru i gyflawni hyn. Mae fy swyddogion wedi sefydlu gweithgor i ystyried modelau i ddenu buddsoddiad mewn creu coetiroedd, heb amharu ar gymunedau a phatrymau perchnogaeth tir sy'n bodoli eisoes. Yr wyf yn cydnabod yr angen i edrych ar yr hyn arall y dylid ei wneud, a byddwn yn ystyried yr opsiynau a gynigwyd gennych fel rhan o'r broses honno. Wedi'i reoli'n briodol, mae hyn yn cynnig cyfle sylweddol i'n heconomi wledig greu swyddi a sgiliau gwyrdd wrth gynaeafu pren ar gyfer nwyddau gwerth uchel.

Mae enghreifftiau da lle mae hyn eisoes yn digwydd, megis gwaith Stump Up for Trees, sy'n harneisio buddsoddiad y sector preifat i ariannu ffermwyr lleol o Gymru i blannu coed ar eu tir.

Mae cynllun presennol Creu Coetir Glastir yn agored i bobl sydd â rheolaeth dros dir yng Nghymru ac mae ffenestr derfynol y cynllun bellach wedi cau. Wrth inni symud y tu hwnt i'r Rhaglen Datblygu Gwledig byddwn yn cyflwyno cynnig newydd ar gyfer creu coetiroedd, yr ydym yn ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fodd bynnag, yr ydym am i dirfeddianwyr eraill yng Nghymru chwarae eu rhan wrth blannu coed, ac yr wyf yn ymwybodol o'r effaith y gallai cyfyngu ar gymhwysedd i ffermwyr gweithredol gael ar hyn.

Yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**